# Cân Diolch Nadolig

**Cytgan:**
DIOLCH!  Gair syml, ond pwysig iawn
DIOLCH! Yn y bore, a diolch yn y p'nawn
DIOLCH!  Gair syml, ond pwysig iawn
DIOLCH! Am bopeth gawn

Diolch i fy ffrindiau am eu cardiau nhw i gyd
Diolch Mr.Postmon am yr anrheg o ben draw'r byd
Diolch Mrs.Jones am ddysgu carolau i ni
Ac am y cyngerdd 'Dolig – 'roedd e'n hwyl a sbri!

**Cytgan:**
DIOLCH!  Gair syml, ond pwysig iawn
DIOLCH! Yn y bore, a diolch yn y p'nawn
DIOLCH!  Gair syml, ond pwysig iawn
DIOLCH!  Am bopeth gawn

Diolch Nain am goginio mins peis - o ma' nhw'n ffein
Diolch Taid am fynd â fi i weld y pantomeim
Diolch Mam a Dad am brynu coeden fawr i ni
A diolch i ti Santa am hedfan draw i 'nghartref i!

**Cytgan**
DIOLCH!  Gair syml, ond pwysig iawn
DIOLCH! Yn y bore, a diolch yn y p'nawn
DIOLCH!  Gair syml, ond pwysig iawn
DIOLCH! Am bopeth a gawn

© 2024 S4C